


Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 187

Pris 80c

Mis Tachwedd 2016



DYDDIAD NEWYDD
NOS WENER 4.11.16

LLEOLIAD NEWYDD
CAMPWS Y GWYNDY
CAERFFILI

CYSTADLAETHAU
A GWOBRAU NEWYDD
LLEISIOL | DAWNSIO
LLEFARU | OFFERYNNOL
FFOTOGRAFFIAETH
LLENYDDOL

NOSON GYMDEITHASOL
GYDA BAR



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Gareth W. Williams, a Dilys Williams

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

SUL Y COFIO gydag Elwyn Parry

Dyma ni eto yn nesau at Sul y Cofio. Beth ydyw i chi? Melltith neu Fendith? Dywedodd Tennyson 'Death closes all' pan ddaw trasiedi ac mae hyn yn cael atsain mewn rhai pobl. Ar y llaw arall mae eraill yn cael cysur yn sicrwydd Paul 'Death has no more dominion' dros Grist a thrwyddo Ef ei bobl. Does ots wedi'r cyfan pa ffordd edrychwch ar fywyd, mae Marwolaeth yn brifo onid yw? Mae colledion bywyd yn erchyll mewn rhyfel, yn dod ag angen am ddealltwriaeth mawr a theimladrwydd mawr – ein hanwyliaid, yr hogiau a'r merched, hufen dynoliaeth wedi'u haberthu oherwydd fod y Bwystfil wrth y drws ac fe roesant eu 'today for our tomorrow'.

Pan ddechreuais fel athro Gwybodaeth Ysgrythyrol mewn Ysgol Eilradd ym Manceinion tasg a gefais oedd llunio gwasanaeth coffa gyda'r dosbarth hynaf (15 oed). Yn y trafod gyda'r dosbarth fe ofynnodd bachgen gwestiwn ac yn ddigon difrifol 'What if we had lost the war, sir?' Byddaf yn dotio'n aml fel mae plant yn medru gofyn cwestiwn sy'n eich llorio!! Yn ystod fy ngyrfa wnes i erioed geisio twyllo plentyn ac fe ofynnais am gael ateb yn y wers nesaf!! Roeddwn wedi bod yn 'filwr bychan' ond nid ym mhoethder y frwydr ac ychydig o brofiad gennyf. Rhaid meithrin y syniad o gofio canys os bydd cenhedlaeth yn anghofio bod ganddi orffennol mae'n rhoddi iddi bresennol di-wreiddiau. 'Beth os' (?) ac i'w ateb oedd yn wir yn brofiad sobr OND wedi dweud hynny, wrth feddwl, roedd y cwestiwn yn help ac yn gynorthwy mawr i'w ateb, i wneud synnwyr o'r ymgysegriad, y gwroldeb anhygoel, yr aberth a'r ymwybyddiaeth ddwfn o ddylestwydd y 'RHAI'.

Fy ngweddi yw efallai daw adeg pan na fydd rhyfel mwyach ac y bydd dynoliaeth yn medru byw'n gytun ond fel 'milwr bychan' rydw i'n ymwybodol bod yna RYFEL YR OEN a bod Rhyddid o Bechod a Marwolaeth gafwyd o Galfaria gan ein Harglwydd Iesu Grist. Rhaid 'ymhladd dros fy Arglwydd hyd fy medd'.

At the going down of the sun and in the morning

We shall remember them

Ardal ddiwydiannol? Hy!

Digwydd i mi daro ar rywun na welais i ers iddo fod mewn clos bach, Owen Ashton, sy bellach yn slabyn praff ac yn gweithio i Gyngor Caerffili. Soniodd i'r cyngor nodi yn ddiweddar mai prin yw gweithgarwch amaethyddol yn ein sir. Roedd y ddau ohonom yn sefyll yn anghrediniol ym marchnad ddefaid Nelson ger Llancaiach Fawr ar y pryd. Mae'r hen farchnad yn dal i fynd, ddim mor fawr na mor gyson ond yno o hyd.

Mae sôn bod ffair wedi bod yn Nelson ers canrifoedd ac roedd cymuned yma ers yr hen amserau gydag eglwys wreiddiol Llanfabon wedi ei dyddio yn ôl i'r eglwys Geltaidd gynnar, ond dim ond ers y rhyfel byd cyntaf y bu marchnad da byw yno. Cynhaliwyd yr un gyntaf y tu ôl i dafarn y Lord Nelson ond bu cymaint o fri ar y gwerthu y bu'n rhaid symud i leoliad newydd ar Faes y Goron y tu ôl i'r llyfrgell ym 1923. Nid bod y brenin yn berchen ar y tir ond roedd y cae yn digwydd bod wrth Dafarn y Crown, oedd yn un o'r tafarnai niferus oedd yn manteisio ar y fasnach o ddiwallu syched ffermwyr.

Symudais i i Nelson ym 1976 a gallaf gofio'r bwrwlwm ar bob dydd Llun ar ddiwrnod marchnad: y swm, yr arogleuon, y Land Rovers teiliog a'r tafarnadai yn llifeirio o Hancocks Albright. Roedd marchnad hyrddod yn ddiwrnod mawr yn flynyddol a doi ffermwyr o bedwar ban i brynu a gwerthu meheryn o'r 'Nelson Type' i ddod â gwaed newydd i'w sdod. Oes mae math o ddefaid mynydd Cymreig wedi eu henwi ar ôl y lle.



Môr o ddefaid

Diddorol oedd gweld ambell hen ffermwr tloidaidd yr olwg, yn ei lifrau gwaith a'i welingtons yn cyrraedd i'w boced am rolled sylweddol o bapurau decpynt a phrynu llwdn praff am fil a mwy.

Ond daeth tro ar fydd yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf a thranc i'r farchnad gyda'r archfarchnadoedd yn prynu eu cig yn uniongyrchol gan ffermwyr heb drafferthu cystadlu yn y mart. Gwerthwyd Maes y Goron a bellach mae yno stâd fechan o dai ar, credwch neu beidio, Clos y Farchnad.

Ond ar fin tynnu ei hanadl olaf daeth achubiaeth a chynhalwyd y mart defaid a'r mart hyrddod blynyddol mewn cae y tu ôl i ble mae'r Co-op y tu allan i'r pentref. Symudodd i leoliad mwy parhaol mewn caeau gyferbyn â Llancaiach Fawr. Ac yno mae hi heddiw lle cwrddais i ag Owen.. Roedd hen ffermwr yno o hyd a miloedd yn ei boced. Roedd y prynwr cyntaf glywais i amdano o enau'r ocsiwniar wedi dod yr holl ffordd o Lockerbie. Os yw Caerffili'n ddiwydiannol, mae naws amaethyddol Nelson/ Ffos y Gerddinen yn parhau ac mae hyd yn oed yr Albanwyr yn gwybod.

Gareth W. Williams



Colofn Dafydd Islwyn



Ychydig a feddyliais fore Dydd Gwener, 21ain o Hydref 1966, wrth deithio i lawr Tophill, heibio i Lancaeath Fawr, ac aros ar y Shingrig, y byddai'r bore yn cael ei chofio am newid bywyd y Cymoedd. Disgyn o Dophill i lan o niwl a guddiau Trelewis a'r cymoedd cyfagos. Cyrraedd yr ysgol a dilyn y drefn ddyddiol. Codi gwaith o Beta Maths 4 ar gyfer y dosbarth a bwrw iddi i farcio gwaith y disgyblion. Yn sydyn, daeth Mr Iori Thomas, y prifathro, i mewn i'r dosbarth a golwg bryderus iawn arno, a thorri'r newyddion syfrdanol bod tomennydd glo wedi llithro yn Aber-fan, yr ochr draw i'r mynydd o Drelewis!

Fel y cerddai'r bore daeth mwy o wybodaeth i'r ysgol. Roedd slwdj Tip Saith yn Aber-fan wedi llifo drwy ysgol Pant- glas a throsti hi, chwedl Gwenallt. Roedd y ddamwain lofaol fwyaf ingol erioed wedi digwydd, gan ladd 116 o blant a 28 o oedolion. Y drydedd drychineb ysgytwol a ddigwyddodd yng nghantref Senghenydd mewn tri chwarter canrif. Ar y 23ain o Fehefin 1894 lladdwyd 290 ym mhwl yr Albion, Cilfynydd, ac ar y 14eg o Hydref 1913 lladdwyd 439 yn nhrychineb Senghenydd.

Ychydig a feddyliais wrth ddychwelyd o Drelewis am Fargoed, heibio i Lancaeath Fawr, y prynhawn trwm hwnnw y buaswn yn gwobrwyo cerdd 'Trychineb' yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerffili, ar gaeau y Maenordy yn 2015. Cafodd Marged Selway-Jones, Yr Wyddgrug, ei hysbrydoli i ysgrifennu cerdd gan blant oedran Blwyddyn 8, (sef 12 – 13 oed) am Drychineb Aber-fan yn dilyn gwrandio ar ei nain yn adrodd hanes y digwyddiad. Mor wir yw ei phennill olaf,

Heddiw yng ngwres yr heulwen
a'r caeau oll yn wyrdd
dan gwmwl awyr las ddigwmwl
mae cysgod dros y cwm.

Llynedd cyhoeddwyd y gerdd yng Nghyfansoddiadau Llenyddol Buddugol a Beirniadaethau'r Eisteddfod. Eleni gellir ei darllen yn y gyfrol 'Dagrau Tost - Cerddi Aber-fan' golygwyd gan Christine ac E. Wyn James, Yr Eglwys Newydd. Diben y gyfrol yw cywain y

cerddi a weithiwyd gan feirdd ledled Cymru wrth iddynt ymateb i'r drychineb, ar y pryd a thros y blynyddoedd.

Yn yr adran 'Y Cnwd Cyntaf' ceir casgliad o'r cerddi a gyhoeddwyd rhwng 1966 ac 1973. Cyhoeddwyd dau englyn yn yr adran gan Robert Williams - brodor o ardal fy mebyd, Bob Gors yn atgofion fy rhieni. Dyma ei ail englyn,

Yn Aber-fan braw a fu ac ingoedd
Ac angau yn rhythu,
gwyllo hir a galaru
yn ddwys ar lan afon ddu.

Yn yr adran nodiadau ar y cerddi, y beirdd a'u cefndir, nodir am y gerdd 'Aber-fan 21ain o Hydref 1966' gan T. Llew Jones, y gerdd gynta yn 'Adran y Cnwd Cyntaf' gan y golygyddion,

"Mae eironi chwerw ond priodol, yn y ffaith mai 'Brenin Llenyddiaeth Plant Cymru' a luniodd y gerdd gyntaf - ymateb i Drychineb Aber-fan a'r un fwyaf trawiadol ac ingol ohonynt i gyd o bosibl.

Fe weithiwyd y gerdd fwrw'r Sul wedi'r drychineb ac fe'i darlledwyd i gloi rhifyn 'Heddiw' y BBC nos Lun, 24ain o Hydref 1966. Ynndi mewn gwirionedd diweddarwyd yn arswydus chwedl 'Y Pibydd Brith'. Tra bydd sôn am Aber-fan bydd sôn am gerdd T. Llew Jones." Cerdd bum pennill, pedair llinell yr un ydy hi. Dyma'r trydydd pennill,

A Hamelin oedd ddistaw
a'r holl gartrefi'n brudd
a mawr fu'r galar yno
tros lawer nos a dydd.

a'r pennill ola sy'n taro dyn,

Trist iawn fu hanes colli
y plant diniwed gwan
yn Hamelin ers talwm
Heddiw yn Aber-fan.

Yn yr Adran Adladd cyhoeddir y cerddi a weithiwyd rhwng 1974 a 2016. Yn eu mysgr mae pedwar englyn gafaelfgar sy'n dangos na allwn anghofio Aber-fan,

Nid llafar yw'r galaru yn y cwm
a'r cof yn ail-gladdu;
pan fo angau'n dipiau du
y mae iaith weithiau'n methu
Idris Reynolds

Os yw'r cof yn dal i rofio'r rhai bach
o'r baw a'u pitio
mwy cyndyn yw'r glyn a'r glo
a'r glaw oer i egluro.
Ceri Wyn Jones

Pwll glo ger Aber-fan ydy teitl un Dai Rees Davies, Rhydlewis – yn englyn gorau gen i yng Nghystadleuaeth yr englyn 'Pwll' yn Y Genedlaethol, Wrecsam a'r Fro yn 2011,

Ni lwyddodd tad wrth gloddio i weled
marwolaeth mewn manio
nes i ganrif orlifo
i gario'i hil tua'r glo.

Ateb (- Cofrestr Ysgol Pant-glas, Aber-fan)
gan Gruffudd Owen, Caerdydd, yn
aflonyddu'r darllenydd,

Hen friw y gri foreol a dreiddia
drwy'r huddyg pentrefol
yn ddi-eiriau fyddarol
nid oes neb yn ateb nôl.


Mae'r llun ar glawr y gyfrol hanfodol hon yn dwyn i go' y llun adnabyddus o'r ferch a'i chwaer fach y Senghenydd 1913. Mae'r ddau lun yn clymu'r ddwy drychineb, nag aiff byth yn angof, wrth ei gilydd.

Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Ydych chi'n hoffi cerddi serch? Dyma un dipyn bach yn anghyffredin achos mae'r bardd yn defnyddio gramadeg Cymraeg i siarad am gariad.

y wers gan Steve Eaves
roeddwn i,
roedd hi
ac roeddem ni –
dyma'r amser amherffaith.

mi rydw i,
rwyf ti
ac rydan ni –
amser presennol ydi hwn,
sy'n mynegi'r modd perffaith.



Mae amserau'r ferf yn amlwg - yr amherffaith, y presennol a'r perffaith - ond mae'r bardd hefyd yn chwarae ar eiriau. Mae amherffaith yn awgrymu bod problem, a perffaith yn awgrymu bod popeth yn iawn. Pan mae'r bardd gyda'i gariad mae popeth yn iawn, ond os yw eu perthynas wedi gorffen ac felly yn y gorffennol, mae problemau. Mae gramadeg yn gallu bod yn rhamantus – pwy feddyliai!!

<i>cerddi serch</i> : love poems	<i>anghyffredin</i> : unusual	<i>amherffaith</i> : imperfect
<i>presennol</i> : present	<i>amserau'r ferf</i> : verb tenses	<i>pwy feddyliai?</i> : who would have thought it?
<i>perffaith</i> : perfect	<i>amlwg</i> : obvious	<i>chwarae ar eiriau</i> : playing on words
<i>awgrymu</i> : suggest	<i>perthynas</i> : relationship	<i>gorffennol</i> : past
	<i>rhamantus</i> : romantic	

Cau Capel Moreia - Diwedd Achos a Diwedd Cyfnod

Wedi 175 o flynyddoedd, cauwyd capel yr Annibynwyr ym Moreia, Rhymni gan ddod â'r achos yno i ben ar nos Sul, yr 11eg o Fedi. Rhyfedd oedd darganfod, wrth ddarllen yr hanes, taw ar yr un penwythnos ym mis Medi 1841 y cynhaliwyd yr oedfa i agor adeilad y capel hardd hwn yn rhan isaf y dref. Daeth yr aelodau gwreiddiol o blith cynulleidfafa capel Seion ym mhen uchaf Rhymni, a chyn agor Moreia buont yn cyfarfod mewn mannau amrywiol, gan gynnwys ystafell yn llofft tafarn y Puddlers Arms drws nesaf. Yn ystod cyfnod y Chwyldro Diwydiannol, tyfodd yn eglwys lewyrchus wrth i'r gweithfeydd haearn a glo gynyddu, gan ddenu llawer o fewnfudwyr o siroedd eraill de a gorllewin Cymru i'r ardal.

Bu sawl gweinidog adnabyddus yn gwasanaethu ym Moreia dros y blynyddoedd. Roedd nifer ohonynt yn feirdd, emynwyr ac arweinwyr diwylliannol cenedlaethol, gan gynnwys y Parchedigion D. Silyn Evans, J.J. Williams, Fred Jones, D.J. Davies a Rhys Bowen. Yn ystod yr oedfa ddatgorffori pwysleisiwyd hefyd gyfraniad yr aelodau – yn fenywod yn ogystal â dynion - at lwyddiant y capel, a soniwyd am y gweithgareddau amrywiol a'r gymdeithas arbennig a fu yno.

Roedd 268 o aelodau ym Moreia ym 1951, ond cafwyd lleihad sylweddol yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, fel yn achos llawer o gapeli eraill yn y cwm. Er hynny, ac er i'r eglwys fod heb weinidog am gyfnodau hir wedi ymadawiad y Parch. D. Nennog Thomas ym 1972 a marwolaeth trist y Parch. Gomer Williams yn fuan wedi ei ordeinio ym 1990, parhawyd i gynnal gwasanaethau - yn ddwyieithog – ynghyd â rhai gweithgareddau cymdeithasol, a chynhaliwyd Ysgol Sul Gymraeg yma tan tua 2005. Drwy waith caled ein cyn-ysgrifennydd, Mr John Williams, Bargod (a fu farw'r llynedd) a chefnogaeth gweinidogion a phregethwyr lleyg, llwyddwyd i gynnal yr achos a'r adeilad am dros ddeng mlynedd wedi i'r Ysgol Sul ddod i ben. Ond roedd y dyfodol yn ansicr iawn heb blant a phobl ifanc.



Penderfyniad anodd a phoenus oedd i ddirwyn yr achos i ben a chau man o addoliad sydd yn golygu cymaint i bawb a fagwyd yma, ond daeth cynulleidfafa dda ynghyd i'n cefnogi a diolch am yr hyn a fu. Cafwyd oedfa addas ac urddasol dan lywyddiaeth gadarn a chadarnhaol y Parchedig Ddr. R. Alun Evans, Caerdydd, cynweinidog Bethel, Caerffili a chynlywydd Undeb yr Annibynwyr. Diolch i bawb a fu'n bresennol.

Mae gan bobl Moreia atgofion lu o fywyd a phobl y capel ac mae'r hanes yn rhan o etifeddiaeth ddiwylliannol y dref a'r cwm. Cyhoeddwyd dau lyfryn dros y blynyddoedd, y naill, '*Moreia*,

Rhymni: Braslun o'r Hanes ac Atgofion' a gasglwyd gan y Parch. Rhys Bowen ar achlysur y canmlwyddiant ym 1941, a'r llall, '*Moreia, Rhymni: yr Hanner Can Mlynedd Diwethaf*' a baratowyd pan ddathlwyd canmlwyddiant a hanner ym 1991.

Dr Sian Rhiannon

Hwnt ac Yma.....

Genedigaethau



Mae Mrs Rhian Huws, Ffwrnes Blwm, nawr yn nain i ddeg o wyrion! Estynnwn longyfarchiadau mawr i Carys a'i gŵr Rhodri sydd bellach yn byw yn Llandeilo ar enedigaeth Taliesin Jac, ar Orffennaf 22ain brawd bach i Dafydd a Beca, .Dyma fe'n gwenu'n braf arnom ar ochr chwith y dudalen

Ac ar yr ochr dde mae ei gyfnither newydd! Estynnwn ein llongyfarchiadau hefyd i Aled a Lisa Huws wrth iddynt groesawu



Llongyfarchiadau hefyd i Geraint a Jackie Hill ar enedigaeth eu mab, Owen Llywelyn, yn Ysbyty Frenhinol Gwent ganol mis Medi . Brawd bach newydd i'r efeilliaid, Bethan ac Isabelle. Mae nain a taid Penpedairheol Anwen ac Ivan Hill wrth eu boddau unwaith yn rhagor.

Marwolaethau

Fis Awst bu farw Eifion Roberts, Bancffosfelen, tad Annette Dutt, Prince's Avenue, Caerffili. Estynnwn ein cydymdeimlad cynhesaf i Robert ac Anette ac i Rhiannon a Meredydd.

Dyma englyn priodol a ymddangosodd ar glawr taflen angladdol Mr Roberts. Tybed ydy un o'n darllenwyr yn gallu rhoi gwybod i ni pwy oedd y bardd a gyfansoddodd hwn?

Gof gwlad a'i offer cadarn – yn hoenus
A'i lluniodd o'r un darn,
Huawdl yw'r bwa haearn
Yn denu cerdd dan y carn.

§ § § § § § § §

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth mam Mrs Sian Griffiths, Heol Sant Martin, Bu gofal Sian dros ei mam yn fawr.Ym Mhenygraig , Y Rhondda Fawr, roedd Mrs Parry yn byw ac oedd yn 96 mlwydd oedd.Cydymdeimlwn â Sian ac, wrth gwrs, ag Emyr ac Iwan sydd wedi colli mam-gu.

§ § § § § § § §

Ganol fis Hydref bu farw un o ddarllenwyr selog ein papur bro. Bu Cyril Thomas, Tredomen yn athro yn Ysgol Lewis i Fechgyn. Yn enedigol o Ferthyr Tudful roedd yn frawd i'r paffiwr enwog Eddie Thomas.

Bwrlwm Bro

Os gofynnwch chi i rywun o wlad arall am nodweddion y cymoedd, bydd yr ateb yn aml yn cynnwys delweddau cyfarwydd iawn - rygbi, corau meibion, pyllau glo a chapel, gydag ambell i ddraig, castell, het uchel neu ddaffodil i gyfleu cyd-destun ehangach.

Rhyfedd mor hen ffasiwn yw'n heiconau cenedlaethol a rhanbarthol! Diflannodd y pyllau ac mae'r capeli'n brysur gau o'n cwmpas; ni welodd neb ddraig erioed, nac unrhyw un tu allan i barti dawnsio gwerin yn gwisgo het uchel, ac mae'n 500 mlynedd ers i unrhyw un o'r cestyll fod o ddefnydd ymarferol. Diolch byth am gyfaredd oesol cennin Pedr!

Ond credaf fod y delweddau ystrydebol hyn yn rhoi argraff digon camarweiniol o'n diwylliant yn gyffredinol. Mae naws y capel yn drwm arnynt, fel ag y mae ar ein hanes swyddogol yn gyffredinol. Mawr oedd dylanwad y capeli ar bob agwedd o'n bywydau yn y cwm hwn, am gyfnod byr ond pwysig iawn o ran ffurfio'n canfyddiad ohonon ni ein hunain. Perthyn y dylanwad hwn - yn fras - o 1850 hyd 1950, cyfnod pan oedd crefydd yn gyffredinol yn elfen bwysig ym mywyd pob un, pan oedd yr enwadau anghydfurfiol yn datblygu'n gyflym, diwygiadau crefyddol yn ysgubo trwy Gymru fel tân gwyllt (tan 1904-5, beth bynnag), y werin bobl yn ymbarchuso'n gyflym - a hanes yn datblygu fel disgyblaeth academiaidd ochr yn ochr â thwristiaeth a'r cyfryngau torfol.

Ond roedd elfen arall i ddiwylliant ein Cwm Ni, ac un mwy hynafol o lawer na'r capel a'r pyllau glo. Roedd 'na fwrlwm answyddogol yn ein bro ni, bwrlwm diwylliannol a chymdeithasol y tu allan i furiau capel. Ni chaiff y bwrlwm afreolus hwn lawer o sylw gan haneswyr.

Mae tafarn yn agos at bob un o eglwysi hynafol ein cwm, megis Eglwysilan, Gelligaer, Bedwellte a Mynyddislwyn. Olion 'Ty'r Eglwys' yw'r tafarndai hyn, a fyddai'n darparu bwyd, diod a chysgod i'r addolwyr oedd wedi teithio milltiroedd dros y bryniau i eglwys y plwyf. Gwelir hynny'n glir ym Medwellte, lle saif hen dafarn y 'Church Inn' mor agos at yr eglwys, neu'r 'Church House Inn' ger hen eglwys Bedwas. Wedi i'r plwyfolion fynychu'r gwasanaeth yn yr eglwys, caent gyfle i ymlacio yn y dafarn. Dyma lle byddai gwyliau'r eglwys yn cael eu dathlu yn eu tro – a rheiny'n ddathliadau digon gwyllt, yn ôl pob sôn.



Mae hen hanes i'r tafarndai hyn felly, ac adlewyrchir hynny yn yr enwau Cymraeg fu ar rai ohonynt - y 'Maenllwyd' yn Rhydri, 'Y Ffwrwm Ishta' ym Machen, y 'Ty'n-y-Pwll' yn Nhrethomas neu'r 'Neuadd Wen' ger Aberbargod, er enghraifft. Mae gan rai enwau sy'n dwyn i gof y gymdeithas amaethyddol oedd yma cyn suddo'r pyllau mawr - y 'Coopers' yn Ystrad Mynach, er enghraifft, neu'r 'Old Mill' yn y Bargod. Y 'Rowan Tree' yw enw tafarn ar gyrion Nelson heddiw, ond y 'Colliers' Arms' ydoedd am ganrif a rhagor, yn ein hatgoffa o'r pyllau glo bach oedd wedi eu suddo yn y corstir y tu ôl i'r dafarn.

Yn y 'Colliers' byddai'r Siartwyr lleol yn cwrdd, fel ag a wnaeth eu cyd-ymgyrchwyr yn y Coed Duon, a dyrrai at eu cyfarfodydd yn y 'Coach and Horses'. Roedd tafarndai'n Cwm Ni yn ganolfannau gwleidyddol yn ogystal â diwylliannol, yn ganolbwyntiau bwrlwm o ddiwylliant gwerinol ac answyddogol oedd heb ei barchuso. Roedd gan ddiwylliant tafarndai'r ardal hon ran bwysig yn natblygiad ein hanthem genedlaethol hefyd, fel y cawn glywed yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas Hanes CwmNi ar Dachwedd 3ydd.

Dr Elin Jones

Posau'r Plant gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



CHWILAIR

Mae enw'r 14 gorsaf rheilffordd sydd yn mynd o Gwm Rhymni i gaerdydd o fewn y sgwâr. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

Llanbradach	Caerffili	Pengam
Ystrad Mynach	Bargoed	Aber
Energlyn	Caerdydd	Rhymni
Mynydd Bychan	Llysfaen	Hengoed
Tirphil	Llanisien	

Oedfaon Capeli Cymraeg Caerffili ar gyfer mis Tachwedd

Tonyfelin

Tachwedd 6	10.30 a 6.00	Y Parch Milton Jenkins	
Tachwedd 13	10.30	Y Parch Milton Jenkins	5.00 Mr Ian Smith
Tachwedd 20	10.30	Y Parch Lona Roberts	5.00 Y Parch Milton Jenkins
Tachwedd 27	10.30	Mr Neville Evans	5.00 Y Parch Peter Dewi Richards

Bethel


Tachwedd 6	10.30	Mr Gareth Hughes	
Tachwedd 13	10.30	Y Parch Haydn Thomas	6:00 Mrs Ruth Starr
Tachwedd 20		Ymuno â Thonyfelin bore a hwyr.	
Tachwedd 27	10.30	Mr Alun Johnson	

Capel Y Groeswen

Tachwedd 13	Gwasanaeth Sul y Cofio (yn Saesneg)	gyda Mr Gordon Maslen
-------------	-------------------------------------	-----------------------

Mwy eto o enillwyr.....

Mae tŷ cyhoeddi Cymreig lleol newydd ennill dyfarniad cenedlaethol pwysig. Cyhoeddwyd yn ddiweddar i gwmni Rily ennill gwobr Tir Na N'og am gomisiynu'r awdures Siân Lewis i ysgrifennu ei fersiwn hi o'r Mabinogi. Ac, yn ogystal â hynny, enillodd addasiad o'r un gwaith y drydedd wobwr yn adran llyfrau Saesneg i blant. Ac mae'r llyfrau hyn yn werth eu prynu petai ond er mwyn cael gweld lluniau godidog yr artist Valérieane Leblond.




Sefydlwyd y cwmni Rily gan Richard a Lynda Tunnicliffe rhyw bymtheg mlynedd yn ôl a'u henwau nhw yw teitl y cwmni, "Ri" am Richard a "Ly" am Lynda. Hobi oedd y cyhoeddi iddynt ar y dechrau gan anelu at gyhoeddi dau deitl y flwyddyn. Ond cymaint fu eu llwyddiant aethpwyd ati i weithio amser llawn yn y byd cyhoeddi.

Roeddent wedi trefnu cyfieithiadau o lyfrau Roald Dahl flynyddoedd yn ôl ond eleni lansiwyd cyfres newydd i ddathlu canmlwyddiant geni'r awdur enwog. Mae gan y cwmni gynnig arbennig rhwng nawr a'r Nadolig lle gellir pryn 14 o lyfrau am £50 yn lle £65. Beth am fynd ati nawr i feddwl am lenwi'r hosan ar gyfer y plant?

Cymaint mwy llwyddiannus na'r ymgais gan gyhoeddwy eraill i fynd ati i gynnig fersiynau Cymraeg o lyfrau Harry Potter. Mae hyn yn brawf o'r gafael sicr sydd gan y cwmni hwn o'r busnes cyhoeddi.

Cyfres boblogaidd o'u heiddo yw'r llyfrau am "Clem" y ci dditectif a addaswyd gan Luned Whelan o lyfr gwreiddiol Alex T. Smith. Argraffwyd pum teitl eisoes a bydd y chweched, "Clem a'r Sgrin Fawr" ar werth o Ionawr 2017



Nodwn hefyd i "Taclus", a gyhoeddir gan y cwmni hwn, ymddangos yn Llyfr y Mis i Blant, Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer Mis Medi. Cyfaddasiad Mari George o lyfr Emily Gravett yw hwn. Mae'r wasg yn cynnig llyfrau ffeithiol y ogystal â llyfrau i blant bach oed 5+ a 7+. Ac er cadw i fyny â datblygiadau cyfoes maent hefyd yn cynhyrchu gemau electronig fel, "Minecraft" yn y Gymraeg.

A dal i gynhyrchu mae'r cwmni. Bydd y flwyddyn newydd yn gweld Gwyddoniadur yn dod allan ym mis Ionawr; ym mis Mawrth byddant yn lansio "Stori'r Brenin Arthur" i ddod allan yr un pryd â ffilm Hollywood am yr hanes hwnnw.

Bydd y llyfrau hyn ac eraill ar gael nawr ac yn y dyfodol yn ein siop lyfrau Cymraeg newydd, Llyfrau'r Enfys ym marchnad Caerffili a chan lyfrwerthwyr da eraill.

Y Gymraeg—Gwasanaethau Gwael a'r Hawl i Gwyno

Mae gan bawb yr hawl i gwyno am dderbyn gwasanaeth Cymraeg gwael oddi wrth ystod o sefydliadau ac ers diwedd Mawrth 2016, mae'r hawl hynny ar waith o dan y Rheoliadau sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Os ydych wedi cyrraedd y pwynt lle'r ydych am gwyno, neu fod rhaid cwyno, yn amlwg mae rhywbeth wedi mynd o'i le sydd wedi'ch corddi neu'ch siomi ac sydd angen sylw'r sefydliad neu gwmni i ddatrys. Ond os ydych am gwyno, beth yw'r ffordd orau. Ble i ddechrau?

Efallai mai'r pwynt cychwynnol yw ystyried pa ganlyniad yr hoffech gael. Ydy'r gwyn o ran un peth syml sydd wedi mynd o'i le rydych am i'r sefydliad gywiro, neu a yw am ddiffyg y sefydliad dro ar ôl tro i ystyried y Gymraeg a thrin yr ieithoedd yn gyfartal?

Gadewch i ni ddefnyddio gwefannau fel enghraifft ymarferol. Os ydych am gwyno bod tudalen we sefydliad yn uniaith Saesneg, efallai mai i'r sefydliad dylech anelu'r gwyn i gychwyn.

Dylai prosesau cwyno sefydliad gymryd llai na mis i'w cwblhau, ac erbyn i chi gael eich ymateb, ac os yw'r sefydliad wedi ymateb yn bositif, bydd y tudalen wedi'i chyfieithu ac arlein. Gallwch hyd yn oed ystyried e-bostio'r sefydliad yn gyffredinol i gychwyn yn hytrach na chwyno, a gweld beth yw'r ymateb.

Cymharwch hyn gyda chwyno i'r Comisiynydd am yr un peth. Mae prosesau cyfreithiol y Comisiynydd yn meddwl bod rhaid cychwyn achos swyddogol sy'n gallu cymryd misoedd i orffen, gyda gohebiaeth yn mynd rhwng yr achwynydd, y sefydliad a'r Comisiynydd i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd ymchwilio pob un gwyn sy'n cael ei chyflwyno, beth bynnag yw eu maint a'u natur.

Erbyn i'r holl broses ddod i ben a'r Comisiynydd efallai'n cytuno gyda'r achwynydd bod y sefydliad ar fai, gall y sefydliad fod wedi cyfieithu a gosod y dudalen we dan sylw fisoedd yn ôl, sy'n meddwl bod yr ymarfer wedi costio cryn dipyn o arian cyhoeddus i weithredu er i'r broblem cael ei chywiro ers amser. Mae hyn wedi digwydd yn barod i nifer o sefydliadau o ran arwyddion ffyrdd er enghraifft, rhai ohonynt am waith dros dro oedd wedi'i gwblhau a'r arwyddion wedi mynd, yn bell cyn i'r gwyn ddod i ben.

Ond ar y llaw arall wrth gwrs, os oes nifer o enghreifftiau gennych gan sefydliad, ac nid yw cwyno iddynt wedi newid dim (e.e. adrannau o'r wefan dal yn uniaith Saesneg ar ôl cwyno ar fwy nag un achlysur), dyna pryd y gall cwyn i'r Comisiynydd fod llawer mwy o werth, gyda'r holl dystiolaeth wrth gefn i brofi patrwm o weithredu yn erbyn egwyddorion y Safonau.

Ystyriwch mewn achos felly pa mor gryf bydd eich cwyn i'r Comisiynydd os ydych yn gallu profi bod eich cwyn i'r sefydliad wedi methu newid agweddau, ymarfer a systemau?

Mae'n fater o gymesuredd hefyd - pa ffordd o gwyno fydd yn arwain at ganlyniad boddhaol i chi, mewn cyn lleied o amser ac yn helpu arbed rhywbeth tebyg rhag digwydd yn y dyfodol?

Fel nodyn o gyngor ychwanegol, mae cwyno'n ysgrifenedig/dros e-bost llawer mwy effeithiol na galwad ffôn am nifer o resymau. Mae'n llawer mwy eglur i bawb i nodi pwyntiau'n rhesymol yn ysgrifenedig a llawer mwy tebyg y caiff pob rhan o'ch cwyn y sylw cywir.

Ar wahân i'r emosiwn tu ôl i gwynion dros y ffôn, lle gall eich rhwystredigaeth chi neu agwedd neu ymateb y sefydliad gael eu camddeall, gan amlaf nid oes cofnod llawn o'r sgwrs ychwaith, lle'n ysgrifenedig mewn llythyr neu e-bost mae prawf y drafodaeth ar gael i bawb.

Bydd gan bob sefydliad fanylion ar eu safleoedd gwe o ran sut i gwyno'n ysgrifenedig, dros e-bost neu dros y ffôn iddynt. Gallwch gwyno i'r Comisiynydd trwy ddefnyddio'r linc: <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymr_aeg/Cwyno/Pages/Ffurflen-cwyno.aspx>

Cofiwch, eich dewis chi fel unigolyn yw'r dull a'r ffordd o gwyno ac i bwy, bwriad yr erthygl yw ond i'ch cynorthwyo i gwyno yn y modd gorau i'ch achos chi, er mwyn cael y canlyniad iawn.

Nodwch mai cyngor annibynnol a phroffesiynol yw'r erthygl uchod, nid barn y papur bro.

Pwy yw pwy ym Menter Iaith Caerffili?

Sefydlwyd Mentrau Iaith yn nifer o siroedd Cymru er mwyn hybu defnydd yr iaith. Dyma gip i'n darllenwyr o'r holl waith sydd yn mynd ymlaen o fewn ein sir ni er mwyn sicrhau bod Cymry Cymraeg, plant a dysgwyr, fel ei gilydd, yn mwynhau cyfleoedd i gyfathrebu yn y Gymraeg. Cawn wneud hynny drwy ddefnyddio'r iaith a datblygu ein medrusrwydd.

Lowri Jones yw prif swyddog Menter Iaith



Sir Caerffili ers sefydlu'r Fenter yn 1999. Mae hi'n byw, gyda'i gŵr Paul, ym Mhentref Trelyn â'u pedwar mab. Yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni graddiodd mewn Hanes yng Ngholeg y Brifysgol,


Aberystwyth cyn mynd ymlaen i ennill gradd Meistr yno.

Mae sawl her yn ei hwynebu ar adeg gyffrous iawn. Yn un peth mae'n anodd cynnal cyllid sydd yn aml yn fyr dymor ac felly mae'n gwario llawer o amser yn sicrhau ffynonellau ariannol. Mae'n awyddus i gynyddu cronfa ddata'r Fenter ac am geisio gwasanaethu'r sir gyfan.

Debbie Thomas yw Swyddog Cyllid a Gweinyddol y Fenter. Yn enedigol o Lanbradach, mae Debbie yn un sydd wedi dysgu'r Gymraeg.



Ymunodd â'r Fenter ddeng mlynedd yn ôl wedi cyfnod yn gweithio yn Ysgol Bro Allta, Ystrad Mynach. Yn briod â thri o blant, mae hi nawr yn byw yng Nghefn Hengoed.



Swyddog Datblygu Cymunedol yw **Bethan Jones** sydd newydd briodi. Hi sy'n trefnu gweithgareddau fel Ffilifest ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Hefyd mae hi'n datblygu partneriaethau.

Mae wedi bod gyda'r Fenter ers rhyw dair blynedd. O ardal Dinbych, mynychodd Ysgol Glan Clwyd cyn mynd ymlaen i astudio Drama ac ennill gradd M.A.

Swyddog Prosiect

Llais yw **Morgan**

Roberts. Magwyd

Morgan ar

aelwyd Gymraeg

fferm ei rieni yn

Llwyncelyn ger

Argoed. Mae'n briod

â Steff sydd yn dod o

Fecsico ac mae

ganddynt fab Dafydd

sy'n tyfu i fyny i siarad tair iaith.



Ei waith yw cynnal gweithgareddau a chefnogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ac i sicrhau llais cryf pan gynllunir gweithgareddau.

Tracey Reeves yw Rheolwr Gofal Plant y Fenter. Yn enedigol o Bontypridd, aeth i Ysgol Gymraeg Pont Sion Norton ac yna ymlaen i Ysgol Rhydfelen.



Mae'n gyfrifol am ddarpariaeth a staff Gofal Cofleidiol mewn 9 o'n Hysgolion Cymraeg gan gynnwys Clybiau Carco a Chlybiau Brecwast sydd bellach yn gorfod bod yn hunan gynhaliol.

Gofal Plant hefyd yw maes **Jane Nowaczcek**. Mae'n cefnogi gofal mewn meithrinfeydd cyfrwng Saesneg er mwyn




sicrhau defnydd o'r Gymraeg yn enwedig mewn sefydliadau sy'n hawlio eu bod yn ddwyieithog. Hi hefyd sy'n diogelu ansawdd Cylchoedd Meithrin Cymraeg ar ran y Cyngor.

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Caerffili a Chwm Rhymni mae'n byw yng Ngelligaer gyda'i phedwar plentyn.

Mae **Rhiannon Tucker** i ffwrdd ar hyn o bryd ar gyfer genedigaeth ei hail blentyn. Mynychodd Ysgol y Castell, Caerffili tra'n byw yn Llanbradach ac yna aeth ymlaen i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Ei phrif waith ar hyn o bryd yw'r gwaith o ddarparu defnydd y Gymraeg mewn Cylchoedd cyfrwng Saesneg. I'r perwyl hwn mae wedi llunio dogfen "Cynllun Hyfforddi Dwyieithrwydd" y gall arweinyddion y cylchoedd ei ddilyn, yn enwedig y rhai sy'n brin eu Cymraeg.



Fel y gwelwch, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn cefnogi pob math o weithgareddau er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg. Yn anffodus nid ydynt yn gallu ebostio pobol heb dderbyn eu caniatâd yn gyntaf. Felly, os nad ydych ar restr bostio'r Fenter, cysylltwch yn ddioed â nhw er mwyn i chi allu bod yn rhan o'r bwrllwm.

Cysylltwch.....

gwybodaeth@mentercaerffili.cymru

01443 820913

Suite 1, Parc Y Santes Margaret, Heol Pengam, Aberbargoed, CF819FW

Atebion Posau'r Plant

Faint gawsoch chi'n gywir?



Robert Owen gan Ann Ransome, Dysgwraig Uwchfedredd y mis yma

Cafodd Robert Owen ei eni yn y Dre Newydd, Powys ar 14eg mis Mai 1771. Fe oedd y mab ifancaf mewn teulu gyda saith o blant. Roedd ei dad yn haearnwerthwr a chyfrwywr. Daeth mam Robert Owen o deulu ffermio llewyrchus.

Pan oedd e'n ifanc iawn darllenodd lawer o lyfrau a phan oedd e'n saith oed daeth ysgolfeistr cynorthwyol i'w ysgol leol. Pan oedd e'n naw oed daeth yn bresntis dilledydd.

Symudodd e i Lundain pan oedd yn un deg un oed ac roedd yn gweithio un deg wyth awr y diwrnod chwech diwrnod yr wythnos. Roedd yr amodau gwaith yn anodd iawn. Felly symudodd i Fanceinion ar ôl dod o hyd i waith mewn siop dilledydd arall. Yma cafodd ei annog i godi arian i ffurfio partneriaeth fusnes mewn peiriannau oedd yn nyddu cotwm. Pan ddaeth y bartneriaeth fusnes hon i ben daeth e'n rheolwr mewn melin decstilau arall.

Yma roedd e'n gyfrifol am bum cant o bobl. Roedd e'n llwyddiannus, a rhoddwyd cyfrifoldebau eraill iddo mewn ffatri enfawr arall. Oherwydd ei ddylanwad yn nhre ddiwydiannol Manceinion cafodd e ganiatâd i ddod yn aelod o Gymdeithas Lenyddol ac Athroniaeth Manceinion lle cwrddodd e â llawer mwy o bobl amlwg. Y flwyddyn nesa daeth e'n aelod o Fwrdd Iechyd Manceinion. Mae hwn wedi edrych ar yr amodau gweithio mewn llawer o ffatrioedd Manceinion.

Tra oedd yn teithio ar fusnes cwrddodd Robert â merch ifanc o'r enw Ann Caroline Dale oedd yn ferch i wneuthurwr cotwm llwyddiannus. Priododd e ag Ann a phrynodd ffatri Dale ar yr un pryd. Gwnaeth e lawer o newidiadau gan gynnwys atal plant oedd yn llai na 10 oed i weithio yn y ffatri. Rhoddodd e ganiatâd i'w weithwyr gael egwyl bwyd a chyfleoedd addysgol. Cyflwynodd peiriannau newydd i gynyddu'r gwaith cynhyrchu. Gwariodd Robert Owen swm enfawr o arian yn gwella tai a phalmentydd y strydoedd. Gwnaeth e drefniadau i siop y cwmni werthu nwyddau o ansawdd gwell am brisiau is na'r siopau lleol.

Roedd yr elw yn ariannu ysgol i blant y gweithwyr. Roedd yn sylfaenydd gofal babanod ym Mhrydain hefyd. Daeth New Lanark Mills yn fan pererindod i ddiwygwyr cymdeithasol, gwladweinwyr ac aelodau o'r teulu brenhinol.

Daeth yn aelod seneddol ac roedd yn effetihiol iawn i helpu pasio cyfraith i reoleiddio cyflogau plant a phobl ifanc. Syniadau Robert Owen oedd symud tuag at sosiolaeth a perchnogaeth gydweithredol. Ym 1824 symudodd e i America a daeth yn rhan o arbrawf i sefydlu pentref cymunedol iwtopaidd. Methodd y fenter hon a cholodd e lawer o arian; felly dychwelodd i Brydain. O 1833 ymlaen helpodd sefydlu undebau llafur Prydain.

Bu farw Robert Owen ar 17eg Medi 1858 a chladdwyd yn mynwent ei eglwys leol yn ei dref enedigol, y Dre Newydd. Ystyrrir Robert Owen fel tad y mudiad cydweithredol. Rhoddodd yr undeb cydweithredol gofeb ger ei fedd ym 1902 – er cof am ei waith arloesol.

Cystadlu Brwd!!!!

Cynhaliodd Ieuenctid capel Tonyfelin ‘Noson Gwis’ nos Wener y 7fed o Hydref. Owain a Seren Ash oedd wrth y llyw dan arweiniad y Dr Eirian Dafydd. Roedd timau yn cynrychioli capeli Bethel a Thonyfelin, Cwmni Cwm Ni, “Penblwydd” a’r “Cerddorion”. Cafwyd cwis difyr dros ben gyda lluniaeth i leddfu blinder meddyliol y cystadleuwyr yn ystod yr egwyl.

Bu hi’n noson gymdeithasol gyfeillgar a chodwyd dipyn dros £100 ar gyfer Gwragedd Ghana, sef elusen Undeb Bedyddwyr Cymru eleni. Rhwng y rowndiau o gwestiynau gosodwyd her i’r timau i ysgrifennu cwpled a limerig. Dyma flas ar y cystadlu a fu.



Y buddugol: Y Cerddorion

Ar fore o haf dau bererin
fu’n gwrando ar gôr Tonyfelin;
fe aethant yn syn
ac wedyn yn wyn
wrth weld Mr J. ar y delyn!

Ail agos iawn: Cwmni Cwm Ni

Ar fore o haf dau bererin
fu’n gwrando ar gôr Tonyfelin;
medd un wrth y llall
maen nhw wrthi’n ddi-ball
a’u gwallau yn strach anghyffredin!

Tîm: Cwmni Cwm Ni

Yng nghapel Tonyfelin
ein Gwen sy’n paratoi’r gwin.

Tîm: Penblwydd

Yng nghapel Tonyfelin
yno gawn fara a gwin.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ymhlith y llu o ddeddfau gwyddoniaeth gellid dadlau mai Deddf Cadwraeth Egni yw’r fwyaf un. Bydd llawer yn ei chofio yn y ffurf: Ni ellir creu na diddymu egni, dim ond newid ei ffurf. Hon yw’r ddeddf sy’n greiddiol i bob system o weithredu, beth bynnag yw’r cyd-destun, boed yn feddygol, yn beirianyddol, yn seryddol a phob “...ol” arall. Gyda llaw, Cymro oedd y cyntaf i wneud cyhoeddiad ffurfiol o’r ddeddf, sef, William Grove (1811 – 1896) o Abertawe er bod eraill, megis Carnot, Clausius a Nernst, yn fwy amlwg yng nghof ffisegwyr erbyn hyn. Yn 2017 disgwylir i Wasg Prifysgol Cymru gyhoeddi astudiaeth o gyfraniad Grove. Gwylwch amdano; roedd Grove yn athrylith amlweddog.

Pam rydwi’n sôn am y ddeddf hanfodol hon? Yn syml oherwydd profiad personol diweddar o’r ddeddf ar waith ar ffurf ffres wahanol o eiriau: Y mae pob system yn ei hunan yn tueddu at gyflwr o anhrefn; rhaid wrth fewnbnw o waith (egni) os am adfer a chadw trefn. Felly y bu yn fy rhandir a’ m stydi. Parthed y stydi rwy wastad rhwng dau feddwl; ar un llaw mae’n amlwg yn well ar sawl ystyriaeth os gwaredaf bapurau o’r gorffennol pell, ond, ar y llaw arall, daw trysorau coll i’r golwg eto. Un o’r colledigion hyn yw tudalen o’r cylchgrawn, *Europhysics News*, rhifyn Tachwedd 1999.

Denwyd fy sylw at nodyn yn cario’r pennawd *The Scientists’ Oath*. Yn fyr, mae’r awdur yn nodi bod gan feddygon eu Llw Hippocratig sy’n llywio arferion meddygon ac yn holi oni ddylai gwyddonwyr ddilyn yr esiampl. Mae’r awdur yn cynnig dwy ran i’r cyfryw lw: *yn gyntaf, Hyd y gwn i, ni fyddaf yn cynnal unrhyw ymchwil sy’n niweidiol i bobl; yn ail, Os, ymhen amser, y bydd ymchwil y bues yn cyfrannu ati yn cael ei defnyddio i niweidio pobl, byddaf yn gweithredu’n bwrpasol i wrthwynebu ei datblygiad.*

Hyd y gwn i does dim llw wedi’i chyhoeddi, ond mae’r ystyriaethau yn dal i haeddu sylw.

Pob clod i BBC Radio Cymru am (a) raglen Beti a’i Phobl (Medi 18fed) yn cynnwys sgwrs gyda’r Athro Huw Cathan Davies, arbenigwr disglair iawn ynghylch gwyddoniaeth hinsawdd a thywydd, (b) gyfres Labordy Deri a Bryn.

Dr Neville Evans

Merched y Wawr CwmNi

Yng nghwmni Anthony Evans



Un o arlunwyr blaenaf Cymru yw Anthony Evans, sydd wedi ennill clod am ei waith droeon yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n adnabyddus iawn am ei waith trawiadol a deniadol, ac mae gan ei arddull unigryw apêl eang dros ben. Mae wedi arddangos dros Gymru a Lloegr, Ewrop, India a'r Unol Daleithiau. Gwelir ei waith mewn casgliadau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, yr Unol Daleithiau ac Awstralia. Ar Hydref 19, cafodd cangen Merched y Wawr CwmNi gyfle prin i ymweld â stiwdio'r arlunydd prysur - a phenderfynon ni wneud diwrnod ohono!

Yn Nhreganna, Caerdydd, mae Stiwdio Canfas, lle mae Anthony yn gweithio mewn partneriaeth gydag arlunwyr blaengar eraill, ac aethon ni draw i'w weld yn ystod y bore ar y 19eg o Hydref. Cawsom groeso twymgalon gan Anthony, a chyfle nid yn unig i edmygu ei waith, a phrofi awyrgylch unigryw stiwdio arlunwyr proffesiynol, ond hefyd i wrando arno'n trafod ei waith a'i ddull o greu llun. Esboniodd y gwahanol ffactorau sydd wedi ei ysbrydoli dros y blynyddoedd, a'r modd hefyd y mae ei waith wedi newid a datblygu gydag amser. Mawr yw'n diolch ni fel cangen i Anthony am y croeso, a'r cyfle arbennig hwn. A rhoddodd syniadau am anrhegion Nadolig i lawer ohonom hefyd....



Yn Nhreganna mae Chapter, hefyd, wrth gwrs – canolfan y celfyddydau sydd hefyd yn ganolfan ddiwylliannol a chymdeithasol boblogaidd iawn. Wedi i ni gael gwledd i'n llygaid yn stiwdio Anthony, braf iawn oedd cael gwledd i'r stumog hefyd yn Chapter, a chyfle i gael clonc dros ginio.

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal cyfarfod yn ystod y dydd fel hyn. Ein bwriad wrth wneud hynny yw groesawu rhai nad ydynt am fentro allan gyda'r nos, a hefyd i gynnig rhyw weithgaredd gwahanol i'r arlwy arferol. Bydd pwyllgor Merched y Wawr yn croesawu



unrhyw adborth am y diwrnod, ac unrhyw syniadau am weithgareddau 'gwahanol' ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf. Felly dewch â'ch sylwadau a'ch syniadau atom, os gwelwch yn dda.

Ond dewch â'ch hunain at ein cyfarfodydd hefyd! Oherwydd amgylchiadau, bu'n rhaid newid trefniadau ein cyfarfod fis nesaf. Byddwn yn cwrdd yn festri Capel Bethel, yn ôl y rhaglen, ond noson frethyn cartref fydd gennym ar Dachwedd 16eg. Bydd aelodau'n dod â gwrthrych sy'n drysor iddynt, ac yn esbonio peth o'i

hanes a'i arwyddocâd iddyn nhw'n bersonol. Cawsom noson debyg rai blynyddoedd yn ôl, a chael amser difyr – a dadlennol!

Ffarwelio â Ffyddlonwreg - Marian Fairclough

Dwi ddim yn gwybod os oes sut air â 'ffyddlonwreg' i ddweud y gwir, ond ni allaf feddwl am well air i ddisgrifio Marian Fairclough, sydd newydd ymddeol fel ysgrifennydd cangen Cwm Rhymni o Ferched y Wawr. Bu'n gwasanaethu'r gangen yn ffyddlon ers 6 o flynyddoedd, a rhwng 2012 a 2015 fu hefyd yn ysgrifennydd rhanbarth dros Ferched y Wawr.

Ni chafodd yr un gangen well ysgrifennydd na Marian: yn drylwyr, yn fanwl gywir, yn gydwybodol ac yn amyneddgar, yn gartrefol ym myd y cyfrifiaduron a'r e-byst ac, ar ben y rhinweddau ysgrifenyddol hynny i gyd, yn berson arbennig o hoffus ac annwyl. Er i Marian hanu o'r gogledd (wel, does neb yn berffaith!) mae hi wedi hen gartrefu yn y Cwm hwn, ac yn adnabyddus i garedigion yr iaith yma, a thrwy Gymru gyfan hefyd, oherwydd ei gwaith i'r Eisteddfod Genedlaethol a Bwrdd yr Iaith.

Bu'n rhaid ffarwelio â Marian yr ysgrifennydd yng nghyfarfod cyntaf Merched y Wawr fis Medi, ond roedd pawb yn hapus iawn o ddeall na fydd Marian yr aelod ffyddlon yn ein



gadael. Cawsom noson hwyliog i agor y tymor, cyfle i sgwrsio'n anffurfiol dros ddysglaid/paned, a chyfle hefyd i gyflwyno anrheg fach i Marian, fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i holl waith diwyd a thawel dros y blynyddoedd.

Dengys y llun Mo Potter, Is Lywydd Cangen Cwm Rhymni, yn cyflwyno'r anrheg i Marian. Bu tipyn o drafod dros yr anrheg, ond pan welodd Mo a Gaynor, Ysgrifennydd

Gweithgareddau'r gangen, y

broets arbennig hwn yn siop y Galeri yng Nghaerffili, roedd yn hollol amlwg i'r ddwy taw dyma'r 'feri peth'! Mae Marian, ac Alan y gŵr, yn hoff iawn o gathod, ac mae dwy gath yn rhannu eu haelwyd yng Nghaerffili. Mae gwerthfawrogiad Marian o'r anrheg i'w weld yn glir - gobeithio bydd y broets fach yn ei hatgoffa bob amser o werthfawrogiad ei ffrindiau ym Merched y Wawr ohoni hi.

Cafodd Merched y Wawr Cwm Rhymni wasanaeth 'Rolls Royce' o ysgrifennydd, felly, ac mae'n arwyddocaol does neb eto wedi cynnig camu i'r adwy. Mae rhywun mor arbennig â Marian yn gadael bwlch amlwg iawn ar ei hôl. Felly fe fydd aelodau pwyllgor y gangen yn rhannu'r gwaith hwn rhyngddynt am y tro, a bydd hynny'n debycach efallai i reid mewn hen jalopi, rwy'n ofni! Os digwydd bod rhywun yn barod i'n helpu byddai croeso mawr iddi. Ni allwn ddisgwyl Rolls Royce eto, ond fe fyddwn yn hapus iawn o gael gwasanaeth rhyw Fini bach neu Austin 1100....

Gyda llawer o ddiolch eto, Marian, am bopeth am wnaethoch dros Ferched y Wawr, a gobeithio y cawn ni lawer o oriau hapus yn eich cwmni yn y blynyddoedd i ddod.

Elin Jones

Llywydd Merched y Wawr, Cwm Rhymni

Llun y Mis

Enillodd y llun hwn gan Christine Pitts glod yng Ngŵyl Cwm yr Aber eleni,



Clwb Llyfrau “Cwmni” Tŵr y Lyfrgell NEWYDD

Caerffili

2 o’r gloch

Tachwedd 7fed

“Rhyd y Gro” Sian Northey

Rhagfyr 5ed

“Saith Cam Iolo” Aled Evans

Ionawr 9fed

“Pwnc Llosg” Myfanwy Alexander

Manylion: 02920889827

JanPenney@aol.com

Grŵp Arlunio Dydd Gwener

ARDDANGOSFA ARLUNIO

Llyfrgell Newydd Caerffili



Oriau agor y llyfrgell
rhwng

Tachwedd 14eg a’r Nadolig

Dewch i fwynhau neu brynu